*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi cael ei argraffu yn lle'r OS sydd â'r un rhif ac mae'n cael ei ddosbarthu yn rhad ac am ddim i holl dderbynyddion hysbys yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2007 Rhif 2043 (Cy.168)

# ANIFEILIAID, CYMRU

### IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1226), sy'n darparu ar gyfer gorfodi, o ran Cymru, Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a chael gwared ar enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L147, 31.5.2001, t.1) fel y'i diwygir gan yr offerynnau Cymunedol a geir yn Atodlen 1 i O.S. 2006/1226 ac fel y'i darllenir gyda hwy.

**2**. Y diwygiad yw bod Atodlen 6 ddiwygiedig yn cael ei mewnosod yn O.S. 2006/1226.

**3**. Mae Atodlen 6 i O.S. 2006/1226 ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer gorfodi Atodlen XIA i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 (ynghylch deunydd risg penodedig, cig wedi'i adfer yn fecanyddol a dulliau cigydda).

**4**.Yn rhinwedd Erthygl 22(1) o Reoliad (EC) 999/2001, roedd y darpariaethau a geid yn Atodiad XIA i'r Rheoliad hwnnw o natur drosiannol hyd nes y mabwysiedid penderfyniad o dan Erthygl 5(2) neu (4) o'r Rheoliad hwnnw sy'n dyfarnu ar statws BSE gwledydd yn unol â'u risg BSE, ac ar ôl hynny byddai Atodiad V i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 (a

*This Statutory Instrument has been printed in substitution of the SI of the same number and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 2043 (W.168)

# ANIMALS, WALES

### ANIMAL HEALTH

# The Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) (Amendment) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations amend the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/1226), which provide for the enforcement in relation to Wales of Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council laying down rules for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies (OJ No. L147, 31.5.2001, p.1) as amended by and as read with the Community instruments set out in Schedule 1 to S.I. 2006/1226.

**2**. The amendment is that a revised Schedule 6 is inserted into S.I. 2006/1226.

**3**. Schedule 6 to S.I. 2006/1226 currently provide for the enforcement of Annex XIA to Regulation (EC) No. 999/2001 (concerning specified risk material, mechanically recovered meat and slaughtering techniques).

**4**. By virtue of Article 22(1) of Regulation (EC) 999/2001, the provisions contained in Annex XIA to that Regulation were of a transitional nature pending the adoption of a Decision under Article 5(2) or (4) of that Regulation determining the BSE status of countries according to their BSE risk, following which Annex V to Regulation (EC) No. 999/2001 (introduced

gyflwynwyd gan Erthygl 8 o'r Rheoliad hwnnw) yn gymwys o ran deunydd risg penodedig.

**5**. Mae Penderfyniad bellach wedi ei fabwysiadu o dan Erthygl 5(2) o Reoliad (EC) Rhif 999/2001 (Penderfyniad y Comisiwn 2007/453/EC sy'n sefydlu statws BSE Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd neu ranbarthau ohonynt yn unol â'u risg BSE (OJ Rhif L 172, 30.6.2007, t.84)).

**6**. Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 722/2007 sy'n diwygio Atodiadau II, V, VI, VIII, IX a XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a chael gwared ar enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L164, 26.6.2007, t.7) wedi diddymu Atodiad XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 ac mae wedi mewnosod Atodiad V diwygiedig ("deunydd risg penodedig") yn y Rheoliad hwnnw.

**7**. Mae Atodlen 6 ddiwygiedig i O.S. 2006/1226 yn darparu ar gyfer gorfodi Atodiad V diwygiedig yn Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 722/2007.

**8**. Ni luniwyd asesiad effaith reoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn hwn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

by Article 8 thereof) would apply in relation to specified risk material.

**5**. A Decision has now been adopted under Article 5(2) of Regulation (EC) No. 999/2001 (Commission Decision 2007/453/EC establishing the BSE status of Member States or third countries or regions thereof according to their BSE risk (OJ No. L 172, 30.6.2007, p.84)).

**6**. Commission Regulation (EC) No. 722/2007 amending Annexes II, V, VI, VIII, IX and XI to Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council laying down rules for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies (OJ No. L164, 26.6.2007, p.7) has repealed Annex XI to Regulation (EC) No. 999/2001 and inserted a revised Annex V ("specified risk material") into that Regulation.

**7**. The revised Schedule 6 to S.I. 2006/1226 provides for the enforcement of the revised Annex V inserted into Regulation (EC) No. 999/2001 by Commission Regulation (EC) No. 722/2007.

**8**. A full regulatory impact assessment has not been produced for this instrument as no impact on the private or voluntary sector is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2043 (Cy.168)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007

*Wedi'u gwneud* *17 Gorffennaf 2007*

*Wedi eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *17 Gorffennaf 2007*

*Yn dod I rym* *18 Gorffennaf 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau yn y maes milfeddygol er amddiffyn iechyd y cyhoedd(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bu'r Rheoliadau canlynol yn cael eu llunio.

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) O.S. 2003/1246. Yn rhinwedd adran 162 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r dynodiod hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran nifer ac enwau Paneli Gwyddonol Parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 2043 (W.168)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

## The Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) (Amendment) Regulations 2007

*Made* *17 July 2007*

*Laid before the National Assembly for Wales* *17 July 2007*

*Coming into force* *18 July 2007*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**).

The Welsh Ministers have been designated for the purposes of that section in relation to measures in the veterinary field for the protection of public health(**2**).

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**3**) there has been open and transparent public consultation during the preparation of the following Regulations.

(**1**) 1972 c.68.

(**2**) S.I. 2003/1246. By virtue of section 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are exercisable by the Welsh Ministers

(**3**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 amending Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council as regards the number and names of the permanent Scientific Panels of the European Food Safety Authority (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

**Enwi a Chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 18 Gorffennaf 2007.

**Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006.**

**2**.-(1)Diwygier Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006(**1**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle Atodlen 6 (deunydd risg penodedig, cig wedi'i adfer yn fecanyddol a dulliau cigydda) rhodder yr Atodlen a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Title and Commencement**

**1**. The title of these Regulations is the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) (Amendment) Regulations 2007 and come into force on 18 July 2007.

**Amendment of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006**

**2**.-(1) The Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006(**1**) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) For Schedule 6 (specified risk material, mechanically recovered meat and slaughtering techniques) there is substituted the Schedule set out in the Schedule to these Regulations.

*Gwenda Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

Under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers.

17 Gorffennaf 2007

17 July 2007

(**1**) O.S. 2006/1226 Cy. 117

(**1**) S.I. 2006/1226 W. 117

## YR ATODLEN

Rheoliad 2(2)

## YR ATODLEN A RODDIR YN LLE ATODLEN 6 I REOLIADAU ENSEFFALOPATHÏAU SBYNGFFURF TROSGLWYDDADWY (CYMRU) 2006

## "ATODLEN 6

Rheoliad 9

Deunydd risg penodedig, cig sydd wedi ei wahanu drwy ddulliau mecanyddol a dulliau cigydda

CYNNWYS


1. Penodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel yr awdurdod cymwys
2. Dyletswyddau awdurdodau lleol o ran siopau cigyddion
3. Hyfforddiant
4. Cig sydd wedi ei wahanu drwy ddulliau mecanyddol
5. Pithio
6. Cynaeafu tafodau
7. Cynaeafu cig y pen
8. Tynnu deunydd risg penodedig
9. Anifeiliaid buchol mewn lladd-dy
10. Defaid a geifr mewn lladd-dy
11. Stampiau ŵyn a geifr ifanc
12. Tynnu llinyn asgwrn y cefn o ddefaid a geifr
13. Awdurdodi safleoedd torri gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
14. Awdurdodi a chofrestru siopau cigyddion gan awdurdodau lleol
15. Tynnu deunydd risg penodedig mewn safleoedd torri a awdurdodwyd o dan 13(1)
16. Tynnu asgwrn cefn anifail buchol sy'n ddeunydd risg penodedig ar safle torri nas awdurdodwyd o dan baragraff 13(1)(a)
17. Tynnu asgwrn cefn anifail buchol sy'n ddeunydd risg penodedig mewn siop cigydd a awdurdodwyd ac a gofrestrwyd o dan baragraff 14
18. Cig o Aelod-wladwriaeth arall
19. Staenio a gwaredu deunydd risg penodedig
20. Anifeiliaid Cynllun
21. Diogelwch deunydd risg penodedig


## THE SCHEDULE

Regulation 2(2)

## SCHEDULE SUBSTITUTED FOR SCHEDULE 6 TO THE TRANSMISSIBLE SPONGIFORM ENCEPHALOPATHIES (WALES) REGULATIONS 2006

## "SCHEDULE 6

Regulation 5

Specified risk material, mechanically separated meat and slaughtering techniques

CONTENTS


1. Appointment of the Food Standards Agency as the competent authority
2. Local authorities' duties with regard to butcher shops
3. Training
4. Mechanically separated meat
5. Pithing
6. Tongue harvesting
7. Head meat harvesting
8. Removal of specified risk material
9. Bovine animals in a slaughterhouse
10. Sheep and goats in a slaughterhouse
11. Young lamb and goat stamps
12. Removal of spinal cord from sheep and goats
13. Authorisation of cutting plants by the Food Standards Agency
14. Authorisation and registration of butcher shops by local authorities
15. Removal of specified risk material at a cutting plant authorised under paragraph 13(1)
16. Removal of bovine vertebral column that is specified risk material at a cutting plant not authorised under paragraph 13(1)(a)
17. Removal of bovine vertebral column that is specified risk material at a butcher shop authorised and registered under paragraph 14
18. Meat from another member State
19. Staining and disposal of specified risk material
20. Scheme animals
21. Security of specified risk material

22. Gwaharddiad ar gyflenwi deunydd risg penodedig i'w fwyta gan bobl
23. Diffiniadau o ddeddfwriaeth y Gymuned

**Penodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel yr awdurdod cymwys**

**1**.-(1) Heblaw mewn siopau cigyddion mae'n rhaid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd weithredu mewn perthynas â'r Atodlen hon y dyletswyddau sydd ar yr aelod-wladwriaeth ym mhwynt 11.1 a phwynt 11.2 o Atodiad V i Reoliad TSE y Gymuned fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) rhif 722/2007(**1**) ("Rheoliadau Diwygiedig TSE y Gymuned"), ac mae'n rhaid iddi roi awdurdod at ddibenion pwynt 4.3(a) o'r Atodiad hwnnw.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae arolygydd mewn lladd-dy neu safle torri yn -

(a) filfeddyg swyddogol sydd â chymwysterau yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 i weithredu yn y swyddogaeth honno ac fe'i penodir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd;

(b) gweithiwr cynorthwyol swyddogol sydd â chymwysterau yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 i weithredu yn y swyddogaeth honno, wedi ei benodi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn gweithio o dan awdurdod a chyfrifoldeb milfeddyg swyddogol; neu

(c) unrhyw berson arall a benodir at y pwrpas gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

(3) Gall penodiad fel arolygydd fod yn gyfyngedig i bwerau a dyletswyddau sydd wedi eu nodi yn y penodiad.

(4) Mae gan unrhyw berson sy'n gweithredu pwerau arolygydd o dan yr Atodlen hon yr amddiffyniad a nodir yn rheoliad 14(3).

**Dyletswyddau awdurdodau lleol o ran siopau cigyddion**

**2**. Rhaid i awdurdodau lleol gyflawni dyletswyddau'r Aelod-wladwriaeth ym mhwynt 11.1 a phwynt 11.2 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned o ran yr Atodlen hon i'r graddau y mae'n ymwneud â thynnu mewn siopau cigyddion y rhannau hynny o asgwrn cefn anifeiliaid buchol, sef y rhannau hynny sy'n ddeunydd risg penodedig, a rhaid iddo roi awdurdodiadau a rhoi effaith i gofrestriadau at ddibenion pwynt 4.3(b) yn y Rhan honno.

**Hyfforddiant**

**3**. Mae'n rhaid i feddiannydd unrhyw ladd-dy, safle torri neu siop cigydd lle y mae deunydd risg penodedig yn cael ei dynnu -

(**1**) OJ Rhif L164,26.6.2007, t.7.

22. Prohibition on the supply of specified risk material for human consumption
23. Definitions of Community legislation

**Appointment of the Food Standards Agency as the competent authority**

**1**.-(1) Except in butcher shops, the Food Standards Agency must carry out in relation to this Schedule the duties on the member State in point 11.1 and point 11.2 of Annex V to the Community TSE Regulation as amended by Commission Regulation (EC) No. 722/2007(**1**) ("the amended Community TSE Regulations") and must grant authorisations for the purposes of point 4.3(a) of that Annex.

(2) For the purposes of this Schedule, within a slaughterhouse or cutting plant an inspector is-

(a) an official veterinarian who is qualified in accordance with Regulation (EC) No. 854/2004 to act in such a capacity and is appointed by the Food Standards Agency;

(b) an official auxiliary who is qualified in accordance with Regulation (EC) No. 854/2004 to act in such a capacity, is appointed by the Food Standards Agency and works under the authority and responsibility of an official veterinarian; or

(c) any other person appointed for the purpose by the Food Standards Agency.

(3) An appointment as an inspector may be limited to powers and duties specified in the appointment.

(4) Any person exercising the powers of an inspector under this Schedule has the protection specified in regulation 14(3).

**Local authorities' duties with regards to butcher shops**

**2**. Local authorities must carry out the duties on the member State in point 11.1 and point 11.2 of Annex V to the amended Community TSE Regulation in relation to this Schedule in so far as it relates to the removal in butcher shops of those parts of the vertebral column of bovine animals that are specified risk material and will grant authorisations and effect registrations for the purposes of point 4.3(b) of that Part.

**Training**

**3**. The occupier of any slaughterhouse, cutting plant or butcher shop where specified risk material is removed must-

(**1**) OJ No. L164, 26.6.2007, p.7.

(a) sicrhau bod staff yn cael unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i sicrhau bod y meddiannydd yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau yn yr Atodlen hon; a

(b) cadw cofnod am hyfforddiant pob person tra bydd y person yn gweithio yno,

ac mae peidio â gwneud hynny yn drosedd.

(a) ensure that staff receive any training necessary to ensure that the occupier complies with his or her duties in this Schedule; and

(b) keep records of each person's training for as long as that person works there,

and failure to do so is an offence.

**Cig wedi'i wahanu drwy ddulliau mecanyddol**

4.-(1) Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 5 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (mesurau ynghylch cig wedi ei wahanu yn fecanyddol) yn euog o drosedd.

(2) Mae unrhyw berson sy'n defnyddio unrhyw gig sydd wedi'i wahanu drwy ddulliau mecanyddol a gynhyrchir yn groes i'r pwynt hwnnw wrth baratoi unrhyw fwyd ar gyfer ei werthu i'w fwyta gan bobl neu unrhyw fwydydd anifeiliaid yn euog o drosedd.

(3) Yn y paragraff hwn ystyr "cig wedi'i wahanu drwy ddulliau mecanyddol" yw'r cynnyrch a geir wrth grafu cig oddi ar esgyrn sy'n cynnal cnawd ar ôl tynnu'r esgyrn, gan ddefnyddio dulliau mecanyddol sy'n arwain at golli neu addasu strwythur ffibr y cyhyrau.

**Mechanically separated meat**

**4**.-(1) Any person who fails to comply with point 5 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (measures concerning mechanically separated meat) is guilty of an offence.

(2) Any person who uses any mechanically separated meat produced in contravention of that point in the preparation of any food for sale for human consumption or of any feedingstuff is guilty of an offence.

(3) In this paragraph, "mechanically separated meat" means the product obtained by removing meat from flesh-bearing bones after boning, using mechanical means resulting in the loss or modification of the muscle fibre structure.

**Pithio**

**5**. Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 6 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (mesurau ynghylch rhwygo'r meinweoedd) yn euog o drosedd.

**Pithing**

**5**. Any person who fails to comply with point 6 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (measures concerning laceration of tissues) is guilty of an offence.

**Cynaeafu tafodau**

**6**. Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 7 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (cynaeafu tafodau oddi wrth anifeiliaid buchol) yn euog o drosedd.

**Tongue harvesting**

**6**. Any person who fails to comply with point 7 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (harvesting of tongues from bovine animals) is guilty of an offence.

**Cynaeafu cig pen**

**7**. Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 8.1 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (cynaeafu cig pen buchol) yn euog o dramgwydd.

**Head meat harvesting**

**7**. Any person who fails to comply with point 8.1 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (harvesting of bovine head meat) is guilty of an offence.

**Tynnu deunydd risg penodedig**

**8**.-(1) Mae unrhyw berson sy'n tynnu deunydd risg penodedig mewn unrhyw fangre ar wahân i fangre lle y caniateir tynnu'r deunydd risg penodedig hwnnw o dan bwynt 4.1, neu bwynt 4.3(a) neu bwynt 4.3(b) o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned yn euog o dramgwydd.

(2) Yn achos safle torri, mae tynnu'r canlynol yn drosedd -

(a)

**Removal of specified risk material**

**8**.-(1) Any person who removes specified risk material in any premises other than premises in which that specified risk material may be removed under point 4.1, point 4.3(a) or point 4.3(b) of Annex V to the amended Community TSE Regulation is guilty of an offence.

(2) In the case of a cutting plant, it is an offence to remove-

(a) -

(i) unrhyw ran o asgwrn cefn, sef deunydd risg penodedig, unrhyw anifail buchol sydd dros 30 mis oed pan gaiff ei gigydda; neu

(ii) mewn amgylchiadau pan fo'r cig sy'n cynnwys y deunydd risg penodedig wedi ei ddwyn i Gymru o Aelod-wladwriaeth arall, unrhyw ran o'r asgwrn cefn sy'n ddeunydd risg penodedig ac sy'n dod o unrhyw anifail buchol sy'n 30 mis oed neu'n iau pan gaiff ei gigydda,

onid yw'r safle wedi'i awdurdodi o dan baragraff 13(1)(a); neu

(b) llinyn asgwrn cefn unrhyw ddafad neu afr sydd dros 12 mis oed pan gaiff ei chigydda neu y mae un neu fwy o'i dannedd blaen parhaol wedi torri drwy gig y dannedd, onid yw'r safle wedi'i awdurdodi at ddiben y cyfryw weithred o dynnu o dan baragraff 13(1)(b).

(3) Yn achos siop cigydd, mae tynnu unrhyw ran o asgwrn cefn anifail buchol, a honno'n rhan sy'n ddeunydd risg penodedig, os nad yw'r siop wedi'i hawdurdodi a'i chofrestru at y diben hwnnw o dan baragraff 14, neu os yw'r cig sy'n cynnwys y deunydd risg penodedig wedi'i ddwyn i Gymru o Aelod-wladwriaeth arall, yn dramgwydd.

**Anifeiliaid buchol mewn lladd-dy**

**9**.-(1) Pan gaiff anifail buchol ei gigydda, mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy dynnu'r holl ddeunydd risg penodedig (ar wahân i'r rhannau hynny o asgwrn y cefn sy'n ddeunydd risg penodedig) cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl cigydda ac ym mhob achos cyn yr archwiliad post-mortem.

(2) Mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy draddodi unrhyw gig sy'n cynnwys y rhannau hynny o'r asgwrn cefn sy'n ddeunydd risg penodedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol -

(a) yn achos unrhyw anifail sydd dros 30 mis oed pan gaiff ei gigydda, i safle torri a awdurdodwyd o dan baragraff 13(1)(a) neu i Aelod-wladwriaeth arall yn unol â phwynt 10.2 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned; a

(b) yn achos unrhyw anifail sydd yn 30 mis oed neu'n iau pan gaiff ei gigydda, i safle torri, neu i siop cigydd a awdurdodwyd ac a gofrestrwyd o dan baragraff 14, neu i Aelod-wladwriaeth arall yn unol â phwynt 10.2 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned.

(3) Rhaid i feddiannydd y lladd-dy nodi cig sy'n cynnwys asgwrn cefn nad yw'n ddeunydd risg penodedig yn unol â phwynt 11.3 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned, a rhaid iddo neu iddi ddarparu gwybodaeth yn unol â phwynt 11.3(b) yn y Rhan honno.

(i) any part of the vertebral column that is specified risk material from any bovine animal aged over 30 months at slaughter; or

(ii) in circumstances where the meat containing the specified risk material has been brought into Wales from another member State, any part of the vertebral column that is specified risk material from any bovine animal aged 30 months or less at slaughter,

unless the plant is authorised under paragrapgh 13(1)(a); or

(b) the spinal cord from any sheep or goat aged over 12 months at slaughter or which has a permanent incisor erupted through the gum, unless the plant is authorised for the purpose of such removal under paragraph 13(1)(b).

(3) In the case of a butcher shop, it is an offence to remove any part of the vertebral column that is specified risk material from a bovine animal, if the shop is not authorised and registered for that purpose under paragraph 14, or the meat containing the specified risk material has been brought into Wales from another member State.

**Bovine animals in a slaughterhouse**

**9**.-(1) When a bovine animal is slaughtered, the occupier of the slaughterhouse must remove all specified risk material (other than those parts of the vertebral column that are specified risk material) as soon as is reasonably practicable after slaughter and in any event before post-mortem inspection.

(2) He or she must consign any meat containing those parts of the vertebral column that are specified risk material as soon as is reasonably practicable-

(a) in the case of any animal that is aged over 30 months at slaughter, to a cutting plant authorised under paragraph 13(1)(a) or to another Member State in accordance with point 10.2 of Annex V to the amended Community TSE Regulation; and

(b) in the case of any animal that is aged 30 months or less at slaughter, to a cutting plant, to a butcher shop authorised and registered under paragraph 14 or to another member State in accordance with point 10.2 of Annex V to the amended Community TSE Regulation.

(3) He or she must identify meat containing vertebral column that is not specified risk material in accordance with point 11.3(a) of Annex V to the amended Community TSE Regulation and provide information in accordance with point 11.3(b) of that Part.

(4) Ni chaniateir i unrhyw berson gynnwys streipen las yn y label y cyfeirir ato yn Erthygl 13 o Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor (EC) Rhif 1760/2000 sydd yn sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ar gyfer labelu eidion a chynhyrchion eidion ac sydd yn dirymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97(**1**) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006(**2**) ac eithrio yn unol â phwynt 11.3(a) o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned.

(5) Mae peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn drosedd.

**Defaid a geifr mewn lladd-dy**

**10**.-(1) Pan gaiff defaid neu eifr eu cigydda, mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy dynnu'r holl ddeunydd risg penodedig (ar wahân i linyn yr asgwrn cefn) cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl cigydda ac ym mhob achos cyn yr archwiliad post-mortem.

(2) Mewn achos dafad neu afr dros 12 mis oed adeg cigydda, neu sydd â blaenddant parhaol wedi torri drwy'r deintgig, mae'n rhaid i'r meddiannydd cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl cigydda -

(a) dynnu llinyn yr asgwrn cefn yn y lladd-dy cyn yr archwiliad post-mortem;

(b) anfon y cig i safle torri sydd wedi'i awdurdodi o dan baragraff 13(1)(b), neu

(c) yn unol â'r paragraff cyntaf o bwynt 10.1 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned anfon y cig i safle torri mewn aelod-wladwriaeth arall cyn belled â bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gwneud cytundeb ysgrifenedig gydag awdurdod cymwys yr aelod-wladwriaeth sy'n ei dderbyn, ac yr anfonir y cig yn unol â'r cytundeb hwnnw.

(3) Yn is-baragraff (2)(c), ystyr "safle torri" ("*cutting plant*") yw mangre -

(a) a gymeradwywyd neu a gymeradwywyd yn amodol fel mangre o'r fath o dan Erthygl 31(2) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004; neu

(b) sy'n gweithredu fel mangre o'r fath o dan Erthygl 4(5) o Reoliad (EC) Rhif 835/2004 hyd onis cymeradwyir felly.

(**1**) OJ Rhif L 204, 11.8.200, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan yr Act sy'n ymwneud ag amodau ymaelodi y Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithuania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia a'r addasiadau i'r Cytuniadau y mae'r Undeb Ewropeaidd wedi'i seilio arnynt (OJ Rhif L 236, 23.9.2003, t. 33).

(**2**) OJ Rhif L363, 20.12.2006, t.1.

